# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 6ED RHAGFYR, 2021**

**I DDILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 26 Tachwedd 2021)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Steve Collings | Annwen Hughes |
| Dafydd Owen | Edgar Wyn Owen |
| Elfed Williams | Gareth Tudor Morris Jones |
| W. Gareth Roberts | Elin Walker Jones |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Brynmor Hughes | Eryl Jones-Williams |
| Jason Wayne Parry | Angela Russell |

## Llais Gwynedd (1)

Cynghorydd Gareth Williams

## Gwynedd Unedig (1)

Cynghorydd W Roy Owen

## Aelod Unigol (1)

Sedd Wag

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid derbyncofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 13 Medi 2021 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU 5 - 22

Cyflwyno er gwybodaeth gofnodion yr Is bwyllgorau Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:

a) 12/10/21
b) 11/08/21

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 13-09-21

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Elin W Jones, Gareth Morris Jones, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Owen, Jason W Parry, Angela Russell, Elfed Williams a Gareth Williams

**Swyddogion:**

Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Steve Collings a'r Cynghorydd Roy Owen.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

### 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Mehefin 7fed 2021 fel rhai cywir

### 5. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Derbyniwyd, er gwybodaeth gofnodion yr Is bwyllgorau a gynhaliwyd 6ed Gorffennaf 2021, 16eg Mehefin 2021, 7fed Mehefin 2021 a 20fed Mai 2021

Dechreuodd y cyfarfod am 10.15am a daeth i ben am 10:20am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 12-10-21

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr: Anwen Hughes (Cadeirydd), Angela Russell a Jason W Parry**

**Swyddogion: Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elfed P Roberts (Aelod Lleol) Daniel Preston ac Ian Page (ymatebwyr)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – CAFFI A BAR PARC GWYLIAU TRAWSFYNYDD, BRONABER, TRAWSFYNYDD**

**Ymgeisydd** **Mr David Owen (ar ran Pure Leisure Group)**

**Ymatebwyr** **Michael Sawyer, David Meech, Ric Taylor, Kathryn Hawker, Jamie a Clare Kerrigan, Jane Dinnell a Rachel Jones**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 5 munud i gyflwyno eu sylwadau

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer caffi a bar Parc GwyliauTrawsfynydd – cynllun llawr agored gyda deciau i eistedd tu allan. Amlygwyd y byddai defnydd y caffi / bar ar gyfer defnyddwyr y parc yn unig. Gwnaed y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol ar ac oddi ar yr eiddo; chwarae cerddoriaeth wedi recordio ar yr eiddo a darparu lluniaeth hwyr y nos.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod sawl gwrthwynebiad wedi ei dderbyn gan berchnogion cabanau yn y Parc oedd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu o sŵn yn creu niwsans cyhoeddus a phryderon o gynnydd mewn trosedd ac anrhefn o ganlyniad i or-yfed. Amlygwyd bod sylwadau Adran Gwarchod y Cyhoedd yn nodi bod y cais yn mynd yn groes i amodau caniatâd cynllunio NP5/78/519/A a oedd yn gosod goblygiadau i'r ymgeisydd.

Nodwyd nad oedd gan Heddlu Gogledd Cymru dystiolaeth i wrthwynebu'r cais Argymhellwyd i'r Pwyllgor ganiatáu'r cais yn unol â gofynion Deddf Drwyddedu 2003.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Bod y cais yn cael ei gyflwyno mewn ymateb i amryw o geisiadau gan ddefnyddwyr cabanau i ddatblygu caffi a bwyty yn dilyn colled Rhiw Goch
- Cyflwynwyd cais cynllunio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Bod camgymeriad wedi ei wneud ar y ffurflen gais am drwydded a bod bwriad diwygio'r drwydded i gyd-fynd ag amodau'r caniatâd cynllunio – oriau agor dyddiol o 9:00 – 22:00
- Byddai ceisiadau am ddigwyddiadau arbennig yn cael ei gwneud drwy hysbysiad digwyddiadau dros dro
- Mai at ddefnydd perchnogion cabanau a'u gwestai oedd pwrpas y caffi/bwyty ac y byddai alcohol yn cael ei weini gyda bwyd.
- Nad oedd bwriad iddo fod yn dafarn lleol
- Bod cais am gerddoriaeth wedi ei recordio yn unig (yn bennaf cerddoriaeth gefndirol) o fewn yr adeilad. Petai cais gan yr Is-bwyllgor i eithrio cerddoriaeth wedi ei recordio o'r drwydded, byddai Grŵp Pure Leisure yn fodlon cytuno gyda hyn.

Cadarnhaodd yr Uwch Gyfreithiwr bod y cais wedi ei ddiwygio i gynnwys oriau agor o 9:00 - 22:00 yn unol â'r caniatâd cynllunio. Byddai alcohol 'ar gael' rhwng 9:00 a 22:00 ond y bwriad yn rhoi cyfle i westai gael diod gyda chinio a/neu swper. Byddai lluniaeth hwyr y nos hyd at 22:00 yn unig.

Ynglŷn â'r gerddoriaeth gefndirol, nododd y Rheolwr Trwyddedu nad oed rhaid cael trwydded ar gyfer hyn ond amlygwyd bod eithriadau cyfyngedig i gerddoriaeth byw o fewn oriau trwyddedig. Pwysleisiwyd yr angen i ddatgan yn glir bod yr oriau arfaethedig yn cyd-fynd gyda'r caniatâd cynllunio.

Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

Michael Sawyer

- Cytuno gyda'r oriau agor diwygieidig a'r gerddoriaeth gefndirol
- Bod mynediad i'r eiddo angen bod ar flaen yr adeilad - pryder ynglŷn â diogelwch plant oherwydd cornel beryg gerllaw

David Meech

- Derbyn bod yr oriau agor wedi eu diwygio
- Pryder am arwyddion - angen sicrhau bod arwyddion yn glir ac amlwg
- Bod mynediad i'r eiddo angen bod ar flaen yr adeilad
- Bod rheoli'r safle wedi llacio ers i'r perchnogion newydd gymryd drosodd – angen i'r parc fod yn gyfeillgar gyda pherchnogion cabanau
- Pryder am gynnydd mewn defnydd Airbnb a grwpiau yn defnyddio'r cabanau

Ric Taylor

- Hapus gyda'r oriau diwygiedig
- Pryder ynglŷn â rheoli defnydd y bwyty - sut adnabod gwestai perchnogion cabanau?
- Siom nad oedd y cwmni wedi ymgynghori gyda pherchnogion cabanau

Kathryn Hawker

- Bod seddi ar gyfer 120 ar ddecin yr adeilad – bydd goleuadau ar gyfer hyn yn effeithio statws awyr dywyll
- Siom na chafodd y cais ei rannu gyda pherchnogion cabanau
- Yr hysbysiad heb ei weld ac wedi ei gynnwys mewn papurau lleol yn unig – nid yw perchnogion y cabanau i gyd yn lleol
- A yw cerddoriaeth wedi ei recordio yn cynnwys cynnal disco?

Jamie a Clare Kerrigan

- Pryder am statws awyr dywyll – y lleoliad yn safle arbennig
- Bod mynediad i'r bwyty mewn lle perygl
- Pryder am arogl bwyd – eu caban droedfeddi i ffwrdd o'r bwyty
- Ffliw i gefn yr adeilad wedi ei ychwanegu - pryder am yr ychwanegiadau i'r cais cynllunio gwreiddiol
- Y parc yn le tawel – dim eisiau newid hyn
- Pan fydd y bwyty yn cau am 22:00 a fydd y golau yn cael ei ddiffodd?

Jane Dinnell

- Dim sylwadau pellach i'r hyn oedd wedi ei nodi eisoes

Rachel Jones

- Dim gwrthwynebiad i'r bwyty – byddai'r bwyty yn gaffaeliad i'r parc
- Hapus gyda'r penderfyniad i ddiwygio'r oriau yn unol â'r caniatâd cynllunio
- Angen cadarnhad o 'ddefnydd yr adeilad', os bydd alcohol yn cael ei weini tan 22:00 a fydd hyn yn golygu aros ymlaen yn hwyrach na 22:00 - angen eglurder
- Awgrym i orffen gweini bwyd yn gynharach fel bod y bwyty yn cau am 22:00
- Hapusach pan fydd yr oriau diwygiedig wedi eu cyhoeddi

Cyng. Elfed Roberts (Aelod Lleol) - sylwadau wedi eu cyflwyno drwy e-bost

- Ymddiheuro nad oedd yn gallu bod yn bresennol
- Nad oedd wedi derbyn cwynion a neb yn lleol wedi cyflwyno gwrthwynebiadau
- Dim adnodd yn y parc ar gyfer ymlacio - adnodd Rhiw Goch yn golled
- Oriau yn rhesymol
- Bod y bwyty yn ystyried anghenion y defnyddwyr

Yn manteisio ar y cyfle i gloi'r achos, nododd yr ymgeisydd y pwyntiau canlynol gan ymateb hefyd i'r pryderon a amlygwyd gan yr ymatebwyr:

- Bod mynediad i'r ochr wedi ei benderfynu yn dilyn cyngor pendant gan Ddeddfwriaeth Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA)
- Bod y bwyty ar gyfer preswylwyr a'u gwestai yn unig - bod staff yn adnabod perchnogion y cabanau yn eithaf da ac yn deall pwy fydd yn gymwys. Os bydd sefyllfa yn codi pan fydd rhywun dieithr yn bresennol, bydd yn cael ei herio. Ceisio agwedd rhagweithiol
- Bod yr hysbyseb wedi cyfarch y gofynion - hysbyseb wedi ei osod ar yr adeilad, yn y Daily Post 26-8-21 ac ar dudalen f/b grŵp y parc
- Bod bwriad cael cerddoriaeth gefndirol tu mewn i'r eiddo yn unig

- Bydd goleuadau ar i lawr yn cael eu gosod ar y decin – bydd hyn angen caniatâd swyddogion cynllunio
- Bydd goleuadau ar y fynedfa yn cael eu gosod o dan y canopi
- Bod y ffliw ar gyfer arogleuon coginio yn fater sydd angen ei ailgyflwyno i adran cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri
- Bydd yr eiddo yn cau am 22:00
- Rhaid i berchnogion y parc gydymffurfio gyda'r rheolau y maent hwy eu hunain yn osod ar berchnogion cabanau

Amlygodd y Rheolwr Trwyddedu y gall cerddoriaeth gefndirol gynnwys disco

Ymneilltuodd yr ymgeisydd, yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu yn argymell caniatáu y cais ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref.

Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

. Diystyrwyd sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion trwyddedu. Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau

**PENDERFYNWYD**
- **Caniatáu y cais diwygiedig yn unol â chaniatâd cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (rhif NP5/78/519/A - sylwadau Gwarchod y Cyhoedd) a gofynion Deddf Trwyddedu 2003**
- **Oriau agor**
  **Sul-Sadwrn: 09.00 – 22:00**
- **Cyflenwi alcohol i yfed ar ac oddi ar yr eiddo**
  **Sul-Sadwrn: 09:00 – 22:00**
- **Ymgorfforir y materion sydd wedi eu rhagnodi yn Atodlen Weithredol (Rhan M) y cais fel amodau ar y drwydded**

Rhesymau:

Derbyniwyd 23 o wrthwynebiadau i'r cais gan berchnogion cabanau cyfagos. Cyfeiriodd llawer at eu pryderon yn ymwneud a chaniatâd cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a nodwyd os byddai'r drwydded yn cael ei ganiatáu yn unol â'r cais, byddai hyn yn groes i ofynion y caniatâd cynllunio. Nododd sawl ymatebydd nad oedd y rhybudd glas i'w weld yn glir oherwydd datblygiad strwythur y caban, a bod y datblygiad yn creu perygl i'r rhai sydd yn cerdded ac yn defnyddio'r ffordd. Ategwyd bod y parc mewn ardal o statws awyr dywyll wedi'i warchod, gyda sawl yn pryderu fod niwsans sŵn a golau am amharu ar y lleoliad; pryder am gynnydd sbwriel; materion o drosedd ac anhrefn (pobl leol yn cymysgu gydag ymwelwyr, pobl yn gor-yfed) a bod yr oriau arfaethedig yn ormodol.

Cynigwyd gan sawl ymatebydd buasai'n synhwyrol gostwng yr oriau trwyddedu i 22:00 a bod amser terfyn amseriad ansafonol o 02:00 yn ddiangen ac afresymol, oherwydd natur yr ardal yn gyffredinol. Derbyniwyd dau ymateb yn cefnogi'r cais.

Amlygwyd bod Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi nodi y dylid ystyried fod y cais yn mynd yn groes i'r caniatâd cynllunio, ond pe byddai'r ymgeisydd yn darparu cais o'r newydd i Adran Cynllunio Parc Eryri, fe allai'r gwasanaeth ddarparu sylwadau ar faterion perthnasol pryd hynny, felly nid oedd gwrthwynebiad i'r cais mewn egwyddor.

Nid oedd gan yr Heddlu dystiolaeth i wrthwynebu'r cais.

Wrth gyflwyno ei sylwadau, eglurodd yr ymgeisydd mai camgymeriad oedd yr amseroedd yn y cais. Y bwriad oedd cyd-fynd gyda'r amseroedd a ganiatawyd yn y caniatâd cynllunio (09:00 - 22:00) ac felly roedd bwriad i addasu'r cais i adlewyrchu hyn gan ddileu hefyd yr elfen o ddyddiau arbennig. Cadarnhaodd mai dim ond chwarae cerddoriaeth gefndir oedd y bwriad a chan nad oedd yn weithgaredd trwyddedig y byddai'n fodlon hepgor hynny pe bai'r Is-bwyllgor yn dymuno. Yn ogystal, cadarnhawyd mai'r bwriad oedd agor i berchnogion a'i gwesteion yn unig, ac nad oedd unrhyw fwriad i'w agor fel tafarn i'r cyhoedd. Cadarnhaodd bod trafodaeth yn digwydd gyda'r awdurdod cynllunio am y fynedfa ac y byddai'n cael ei addasu fel yn briodol i sicrhau diogelwch. Roedd 'awyr dywyll' hefyd yn cael sylw o fewn y broses cynllunio.

Nodwyd nad oedd tystiolaeth wedi ei gyflwyno o unrhyw broblemau a fu gyda'r eiddo o safbwynt atal trosedd ac anhrefn ac nad oedd yr Heddlu wedi cyflwyno unrhyw sylwadau. Nid oedd yr Is-bwyllgor felly wedi ei berswadio y byddai caniatáu'r cais yn tanseilio'r egwyddor o atal trosedd ac anhrefn.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod pryderon a godwyd gan y gwrthwynewbyr ond roedd o'r farn bod yr oriau agor diwygiedig yn rhai rhesymol iawn gyda'r amodau a gynigiwyd gan yr ymgeisydd yn addas. Nodwyd nad oedd angen trwydded ar gyfer chwarae cerddoriaeth gefndir sef bwriad yr ymgeisydd. Yng ngoleuni hyn a diffyg tystiolaeth o broblemau, nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei berswadio y byddai caniatau'r cais yn tanseilio'r egwyddor o atal niwsans cyhoeddus.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r pryderon am ddiogelwch y fynedfa ac roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y mater yn cael sylw drwy'r broses gynllunio briodol gyda'r ymgeisydd wedi cadarnhau y byddai unrhyw newidiadau priodol yn cael eu gwneud. Nid oedd yr Is-bwyllgor felly wedi ei berswadio y byddai caniatáu'r cais yn tanseilio'r amcan o sicrhau diogelwch cyhoeddus.

Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r amcan o warchod plant rhag niwed.

O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly caniatawyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 15:10

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 11.08.2021

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr: Anwen Hughes (Cadeirydd), Gareth T Jones ac Elfed Williams**

**Swyddogion: Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lis Williams (Heddlu Gogledd Cymru)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Y Cynghorydd Gruffydd Williams yn eitem 6 ar y rhaglen, (Cais Trwydded Eiddo Siop Traeth Becws Islyn, Nefyn) oherwydd bod ei ferch yn gweithio yn y caffi

Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac felly ni fynychodd y cyfarfod.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – TALYBONT UCHAF FARM, TALYBONT, BANGOR**

| | |
|---|---|
| **Ymgeisydd** | **Simon a Caroline Higham** |
| **Aelod Lleol** | **Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Preswylwyr Lleol** | **Liz Watkins, Meinir Jones, David Pritchard, Grace Crowe, Peter Green, Geraint Hughes a Jên Morris** |

**Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nigel Pegler, Haf Jones a Tina Moorcroft (preswylwyr lleol) ac Aneurin Rhys (Swyddog Rheolaeth Datblygu - Gwasanaeth Cynllunio)**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 5 munud i gyflwyno eu sylwadau

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer adeilad rhestredig gradd 2 sydd wedi ei drawsnewid i gynnwys buarth, ystafell barti a man adloniant dan do. Gwnaed y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol ar yr eiddo yn unig; cerddoriaeth byw ac wedi recordio, ar ac oddi ar yr eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod sawl gwrthwynebiad wedi ei dderbyn gan breswylwyr cyfagos oedd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu o sŵn yn creu niwsans cyhoeddus a phryderon o gynnydd sylweddol mewn traffig ar y ffordd oedd yn arwain at yr eiddo

Argymhellwyd fod y Pwyllgor yn caniatáu'r cais yn unol â gofynion Deddf Drwyddedu 2003.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeiswyr:

- Mai'r bwriad oedd creu man cyfarfod (venue) fyddai'n cynnig digwyddiadau unigryw, moethus safonol gyda lle i aros
- Nad oes eiddo o'i fath yn lleol – nid yw'n cynnig yr un gwasanaeth a Hendre Hall
- Buasai'n rhoi sicrwydd busnes i gwmnïau lleol e.e., glanhawyr, siopau blodau
- Bod dwy lôn yn arwain at yr eiddo gyda bwriad cyfeirio traffig i ddefnyddio un lôn yn benodol. Y ffordd benodol yma yn addas gyda mannau pasio gydag arwyddion a chyfarwyddiadau yn cael eu rhannu gydag ymwelwyr i hyrwyddo'r defnydd
- Eu bod yn byw yn yr eiddo gyda theulu ifanc - dim eisiau ysgogi problemau sŵn
- Eu bod eisiau cydweithio gyda'r gymuned
- Eu bod wedi gwahodd y preswylwyr cyfagos i fynychu cyfarfod i rannu gwybodaeth am y bwriad ond neb wedi troi fyny

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag amlder derbyn hyd ar 150 o bobl ar y safle, nodwyd nad oeddynt yn gwybod beth fydd y galw, ond yn rhagweld cynnal hyd at 15 priodas mewn blwyddyn ar ddydd Gwener <u>neu</u> ddydd Sadwrn.

Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

Yr Aelod Lleol: Cynghorydd Dafydd Meurig

- Bod teimladau lleol cryf yn erbyn y cais
- Byddai sŵn yn aflonyddu bywydau pob dydd cymdogion lleol a thrafnidiaeth ychwanegol yn creu problemau - trafnidiaeth i'r eiddo eisoes wedi cynyddu ers i fusnes trwsio peiriannau cychod sefydlu ar y safle

- Bod dwy lôn i’r safle ond bod y lôn fwyaf cyfleus/ dewisol yn gul iawn
- Bod angen gwirio os oedd caniatâd cynllunio ar gyfer y gweithgaredd – caniatâd eisoes ar gyfer Gwely a Brecwast ond y fenter yma yn sylweddol fwy
- Nad oedd gan y cwmni barch at drigolion lleol
- Bod sŵn eisoes yn treiddio o Hendre Hall sydd wedi ei leoli ochr draw i’r A55 - byddai’r fenter yma yn creu'r un math o sŵn
- Apelio i’r Is-bwyllgor ohirio gwneud penderfyniad hyd nes bydd caniatâd cynllunio yn cael ei ystyried

Liz Watkin

- Ei bod wedi gweld cynnydd traffig sylweddol ar y lôn ers iddi ymgartrefu yn yr ardal yn 1992 - y lôn yn gul iawn gyda chorneli cudd
- Byddai caniatáu’r drwydded yn arwain at gynnydd pellach mewn traffig
- Nad oedd palmant na golau stryd ar hyd y lôn. Y gwrychoedd yn uchel
- Nad oedd rhagrybudd o’r cais wedi ei rannu na bwriad y defnydd wedi ei arddangos mewn lle cyhoeddus
- Bod gweinyddu alcohol hwyr yn y nos yn debygol o arwain at ddamweiniau

Meinir Jones

- Bod y cais yn amlygu amharch llwyr tuag at y gymuned - mwyafrif o’r preswylwyr cyfagos wedi gwrthwynebu
- Bod anerchiad yr ymgeisydd yn anghywir - nid yw’r lôn yn addas. Y lôn yn lôn wledig gul gydag un man pasio ‘swyddogol’ - mynedfeydd i gaeau yw’r gweddill.
- Nad yw gosod arwyddion yn lleddfu’r broblem - nid yw’r arwyddion yn effeithiol - rhaid ystyried diogelwch y gymuned
- Bod cynnydd sylweddol mewn traffig oherwydd datblygiadau diweddar – hyn yn achosi niwsans cyhoeddus
- Loriau danfoniadau i’r busnesau yn cau'r ffordd ar adegau ac yn malu coed
- Methu mwynhau mynd am dro gyda beic na phram oherwydd y traffig. Byddai caniatáu’r drwydded ar gyfer cynnal digwyddiadau ar y penwythnos yn gwneud hi’n amhosib i rywun gerdded ar hyd y ffordd ar unrhyw adeg – dydd a nos
- Busnes yw unig flaenoriaeth yr ymgeisydd - erfyn ar yr Is-bwyllgor i flaenoriaethu diogelwch cymunedol.

Dafydd Pritchard

- Sŵn eisoes yn cario o Hendre Hall – byddai caniatáu’r drwydded yn arwain at greu mwy o sŵn o safle Fferm Talybont
- Y mesuriadau sŵn a gyflwynwyd yn gamarweiniol – angen mesur sŵn pobl ac nid sŵn natur a pheiriannau
- Rhybudd wedi ei osod y funud olaf ar giât - hyn yn amheus iawn

Peter Green a Grace Crowe

- Byddai caniatáu'r drwydded yn uchafu traffig a sŵn
- Bod mynediad i’r eiddo ar hyd lôn gul iawn
- Wedi byw yn yr ardal ers 1999 - ardal a oedd yn llonydd a thawel hyd ddyfodiad busnes trwsio cychod a busnes gwely a brecwast Fferm Talybont. Byddai cynnig priodasau yn gam rhy bell
- Y traffig yn pasio eu tŷ - nid yw’r lôn ddewisol yn ymarferol - dim mannau pasio

- Bod traffig cyfredol i'r busnesau yn anwybyddu arwyddion a chanllawiau defnyddio'r lôn a argymhellir - yn annhebygol o gymryd y lôn anuniongyrchol
- Byddai caniatáu cerddoriaeth tu allan yn ychwanegu at gerddoriaeth sydd eisoes yn cario o Hendre Hall – sŵn dyrnu ac ail adroddus – nid yw cynnig gwneud rhywbeth yn wrthsain yn gwbl bosibl
- Nad oedd y prawf mesur sŵn a gynhaliwyd yn ddigon trylwyr – nid oes ystyriaeth i gerddoriaeth ac fe'i cymerwyd ar amser tawel o'r diwrnod.

Geraint Hughes

- Yr ardal yn ardal braf – derbyn hynny a bod angen 'dathlu hynny'
- Tystiolaeth barn sydd yma – siomedig gydag argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu. Angen ystyried tystiolaeth preswylwyr hefyd
- Ffawd oedd gweld y rhybudd a oedd wedi ei osod ar giât ar lôn breifat – nid mewn man cyhoeddus
- Sail gwrthod y cais fyddai cynnydd mewn sŵn a thraffig - angen diystyru adroddiad mesur sŵn - nid yw'n adroddiad annibynnol
- Bydd cynnydd sylweddol mewn traffig yn ystod y nos ac ar y penwythnosau (dyma'r unig gyfnodau tawel ar hyn o bryd)
- Debyg bydd mwy na 15 priodas mewn blwyddyn
- Adran Priffyrdd heb wrthwynebu cais cynllunio diweddar ar gyfer y busnes cychod ond gwnaed addewidion yn y cyfnod hwnnw gan yr ymgeisydd i gyfeirio traffig - nid yw hyn wedi digwydd
- Llawer o yrwyr yn mynd ar goll wrth geisio cyrraedd y safle ac felly'n gorfod eu hail gyfeirio. O ganlyniad, defnyddir mynedfa ei eiddo i droi - hyn yn niwsans cyhoeddus
- Byddai caniatáu y cais yn newid cymeriad yr ardal
- Angen cyfiawnder i drigolion

Jên Morris

Nifer wedi cysylltu gyda Chyngor Cymuned yn amlygu pryderon:

- Yr effaith bydd y bwriad diweddaraf yn cael arnynt
- A oes caniatâd cynllunio priodol ar gyfer y bwriad?
- Natur y drafnidiaeth i'r eiddo - faniau a lorïau danfoniadau
- Natur pobl ddieithr i'r ardal yn ymddwyn yn wahanol – diffyg parch at gefn gwlad

Yn manteisio ar y cyfle i gloi'r achos, nododd yr ymgeiswyr y pwyntiau canlynol:

- Eu bod yn derbyn sylwadau ac adborth y trigolion ac yn ategu eu dymuniad i gydweithio gyda'r gymuned leol i leddfu problemau traffig ac aflonyddwch
- Eu bod wedi creu grŵp whatsapp i rannu gwybodaeth a chyfeirio traffig – hyn wedi lleihau'r broblem, ond eu bod yn addo gwneud mwy
- Bod bwriad creu lleoliad cyfeillgar (intimate) a phreifat
- Yn byw ar y safle ac felly yn bresennol i reoli'r safle drwy'r amser - yn ystyried lles eu teulu a'r gymuned
- Bod yr adroddiad mesur sŵn a gyflwynwyd wedi ei gwblhau ar gyfer y busnes trwsio cychod - ystyriwyd bod sŵn peiriant cwch yn gymhariaeth dda gyda sŵn band byw
- Eu bod eisiau bod yn rhan o'r gymuned ac felly yn parchu pob sylw

Ymneilltuodd yr ymgeiswyr, yr ymgynghorwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD**

**Gohirio gwneud penderfyniad llawn ar y cais hyd nes bydd yr ymgeisydd wedi cyflwyno a derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd bwriedig yr eiddo fel y rhagwelir gan y cais trwydded eiddo. Os a phan fydd caniatâd cynllunio priodol, bydd yr Is-bwyllgor hwn yn ailymgynnull i ystyried y cais ymhellach, yn ogystal â gwneud penderfyniad llawn**

Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau. Diystyrwyd sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion trwyddedu

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Derbyniwyd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd, nifer ohonynt yn breswylwyr cyfagos, yn gwrthwynebu'r cais gan gyfeirio at yr amcanion trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus a sicrhau diogelwch cyhoeddus. Yn gryno, mynegwyd pryderon y byddai caniatáu'r drwydded yn debygol o arwain at gynnydd mewn sŵn a phroblemau traffig. Er sylw, ni chyflwynwyd gwrthwynebiadau gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tan ac Achub, Adran Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor nac Adran Priffyrdd y Cyngor.

Wrth ystyried y sylwadau, daeth i'r amlwg bod pryderon difrifol am ddiogelwch y ffordd. Y pryderon yn cyfeirio yn benodol at y ffaith bod y lôn sydd yn arwain i'r eiddo yn gul, gyda llefydd pasio cyfyngedig, heb balmant, heb olau stryd ac yn gwasanaethu tai eraill. Daeth hefyd i'r amlwg nad oedd gan yr eiddo dan sylw ganiatâd cynllunio priodol ar gyfer defnydd bwriedig yr eiddo.

Dymuniad yr Is-bwyllgor oedd gofyn i'r ymgeisydd wneud cais am ganiatâd cynllunio priodol gan ystyried canlyniad y broses honno cyn gwneud penderfyniad ar gais am drwydded eiddo. Amlygwyd mai'r rheswm dros hyn oedd bod y broses cynllunio yn fodd o asesu yn fanwl goblygiadau diogelwch ffordd fyddai'n codi o ddefnydd bwriedig yr eiddo. Byddai cael penderfyniad ar ddiogelwch y ffordd yn deillio o ganiatâd cynllunio yn cynorthwyo'r Is-bwyllgor i ddod i benderfyniad cadarn, ar sail tystiolaeth, bod y cais yn gydnaws â'r amcan trwyddedu o sicrhau diogelwch cyhoeddus.

Am y rhesymau hyn, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y byddai'n gynamserol gwneud penderfyniad llawn ar y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr, gan nad oedd yr Awdurdod Trwyddedu wedi pennu'r cais, nid oedd hawl gwneud apêl i'r Llys Ynadon.

**5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO SIOP TRAETH BECWS ISLYN, LON GAM, NEFYN**

**Ymgeisydd** **Geraint Jones**

**Preswylydd Lleol** **David Robinson**

**Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jane Spencer a Neil Cookson (preswylwyr lleol)**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 5 munud i gyflwyno eu sylwadau

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Siop Traeth Becws Islyn, Lôn Gam, Nefyn sy'n gwerthu cynnyrch lleol ar gyrion traeth yn Nefyn. Gwnaed y cais mewn perthynas â chwarae cerddoriaeth wedi recordio ar yr eiddo a gwerthu alcohol, ar ac oddi ar yr eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod gwrthwynebiadau wedi ei derbyn gan breswylwyr cyfagos yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu. Mynegwyd pryderon ar faterion trosedd ac anrhefn, ysbwriel yn casglu ar lan y môr a phryderon o gynnydd sylweddol mewn traffig ar y ffordd a diffyg mannau parcio.

Argymhellwyd fod y Pwyllgor yn caniatáu'r cais yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Bydd y bwriad yn cefnogi busnesau lleol – yn gwerthu cynnyrch lleol
- Bydd y bwriad yn creu cyflogaeth leol

- Wedi rhedeg Becws Aberdaron ers 10 mlynedd heb unrhyw helynt
- Bod gwerthiant alcohol mewn archfarchnadoedd yn dderbyniol
- Bod staff yn gwirfoddoli i gasglu sbwriel oddiar y traeth – sbwriel nad yw'n dod yn uniongyrchol o'r siop
- Bod y siop yn cyfrannu at yr economi leol
- Bod y busnes yn cael ei redeg yn drefnus a chyfrifol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r angen i werthu alcohol o 8am, nodwyd, o'r hyn sydd yn cael ei weld yn Aberdaron, bod ymwelwyr yn dueddol o brynu anrhegion o gynnyrch lleol cyn ymadael ar ardal.

Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddo drwy lythyr.

David Robinson
- Bod ganddo bryderon ynglyn a'r cais – ei fod yn byw 50m o'r eiddo
- Pryder ynglŷn â gwerthu alcohol ar y traeth a materion diogelwch
- Bod meinciau wedi eu gosod ar ffordd gyhoeddus yn atal traffig
- Bod y meinciau yn creu awyrgylch bar
- Bod yr ymgeisydd yn defnyddio biniau cyhoeddus ar gyfer gwastraff masnachol - angen cadw at weithdrefnau cywir
- Bod staff yn defnyddio mannau parcio ar gyfer yr anabl
- Dim palmant ar y lôn sydd yn arwain at y caffi
- Bod y drwydded yn agored i broblemau newydd
- Bod y cynnyrch yn arbennig – ni fydd gwerthu alcohol yn ychwanegu at hyn – os rhywbeth yn niweidiol i'r ardal

Yn manteisio ar y cyfle i gloi'r achos, nododd yr ymgeisydd y pwyntiau canlynol:
- Bod y sbwriel yn dod o'r traeth ac felly cael ei roi mewn biniau sbwriel cyhoeddus
- Bod angen cadw at ofynion y drwydded neu byddai'n cael ei ddiddymu
- Bod mater a lleoliad y meinciau wedi ei drafod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd a bod eu lleoliad yn dderbyniol
- Nad oedd problemau traffig
- Codi safon yw'r bwriad nid creu trafferth

Ymneilltuodd yr ymgeisydd, y preswylyd lleol a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb ac adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais**

**Rhoddwyd trwydded fel a ganlyn:**

**1. Oriau agor**
**Sul-Sadwrn: 08:00 – 20:00**

**2. Cerddoriaeth wedi recordio tu mewn**
**Sul-Sadwrn: 08:00 – 20:00**

**3. Cyflenwi alcohol i yfed ar ac oddi ar yr eiddo**
**Sul-Sadwrn: 08:00 – 20:00**

**4. Ymgorfforir y materion sydd wedi eu rhagnodi yn Atodlen Weithredol (Rhan M) y cais fel amodau ar y drwydded.**

Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau. Diystyrwyd sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion trwyddedu

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Derbyniwyd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd (preswylwyr cyfagos) yn gwrthwynebu'r cais gan gyfeirio at yr amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn, atal niwsans cyhoeddus a sicrhau diogelwch cyhoeddus. Yn gryno, mynegwyd pryderon y byddai rhoi'r drwydded yn debygol o arwain at gynnydd mewn troseddu, ysbwriel yn casglu ar lan y môr, traffig a diffyg llefydd parcio. Er sylw, ni chyflwynwyd gwrthwynebiadau gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tan ac Achub, Uned Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor nac Adran Priffyrdd y Cyngor.

Amlygodd yr Is-bwyllgor eu bod yn derbyn bod rhai o'r pryderon a fynegwyd ynglŷn â'r cais yn rhai diffuant. Fodd bynnag, nid oedd yr Is bwyllgor o'r farn bod tystiolaeth ddigonol wedi dod i law i brofi bod y problemau hyn yn debygol pe byddai'r drwydded yn cael ei chaniatáu, ac y byddai'n groes i'r amcanion trwyddedu.

Amlygwyd pryder y byddai caniatáu'r drwydded yn arwain at gynnydd mewn troseddu gyda'r cais yn tanseilio'r amcan trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn. Er hynny, ni chyflwynwyd tystiolaeth i gefnogi'r honiad tu hwnt i honiadau cyffredinol y gellid eu priodoli i unrhyw eiddo trwyddedig cyfagos, ac ni eglurwyd pam y byddai'r eiddo hwn yn benodol yn debygol o achosi problem sŵn yn fyw nag eraill. Ymddengys bod y sylwadau wedi cael eu cyflwyno ar sail dyfalu ac nid tystiolaeth - nid yw hyn yn sail gyfreithiol dros wneud penderfyniad - yn ôl yr Uchel Lys yn R (on the application of Daniel Thwaites Plc) v Wirral Corough Magistrates Court [2008] EWHC 838 (Admin). Ystyriwyd hefyd na dderbyniwyd gwrthwynebiadau gan yr Heddlu. Er nad yw absenoldeb gwrthwynebiadau gan yr Heddlu yn pennu'r mater, mae'n safbwynt perthnasol. Petai problem troseddol yn debygol o godi, cyfrifoldeb yr Heddlu fyddai amlygu hyn. O dan yr amgylchiadau, nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei berswadio y byddai rhoi'r drwydded yn tanseilio'r amcan o atal trosedd ac anhrefn.

Wrth ystyried pryderon ysbwriel, derbyniwyd sylwadau ar sail dyfalu yn hytrach na

thystiolaeth gadarn ac ni dderbyniwyd sylwadau gan Adran Gwarchod y Cyhoedd. O dan yr amgylchiadau, nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei berswadio y byddai problem sbwriel yn codi o ganlyniad i ganiatáu'r drwydded, heb sôn am un fyddai'n cyrraedd trothwy o achosi niwsans cyhoeddus.

Wrth ystyried pryderon diogelwch ffordd, diffyg llefydd parcio a chynnydd mewn traffig, derbyniwyd y galla'r pryderon hyn mewn egwyddor fod yn berthnasol i'r amcan o sicrhau diogelwch cyhoeddus. Fodd bynnag, roedd y pryderon hyn yn seiliedig ar ddyfalu yn hytrach na thystiolaeth a heb eu cefnogi gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Gwasanaeth Ambiwlans a Gwasanaeth Priffyrdd y Cyngor. Petai caniatáu y cais yn debygol o greu cynnydd traffig fyddai'n peri risg i ddiogelwch y ffordd, byddai'r Is-bwyllgor wedi disgwyl y byddai sylwadau gan yr asiantaethau swyddogol yn amlygu hynny. Yn wyneb diffyg tystiolaeth a diffyg sylwadau oddi wrth arbenigwyr yn y maes, nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei berswadio y byddai caniatáu'r cais yn debygol o danseilio'r amcan o sicrhau diogelwch cyhoeddus.

Tra bo'r Is-bwyllgor yn deall a derbyn pryderon trigolion ar y cais, rhaid gwneud penderfyniad ar sail gyfreithlon ac ar dystiolaeth gadarn sydd yn berthnasol i un neu fwy o'r amcanion trwyddedu. O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu. Caniatawyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

## 6. CAIS AM DRWYDDED EIDDO VAYNOL ARMS, PENTIR, BANGOR

| | |
|---|---|
| **Ymgeisydd** | **David Hughes** |
| **Aelod Lleol** | **Cynghorydd Menna Baines** |
| **Swyddogion:** | **Ffion Muscroft (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd)** |

**Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dr Wyn James a Dr Caroline Lamers (preswylwyr lleol)**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 5 munud i gyflwyno eu sylwadau

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Vaynol Arms, Pentir, Bangor sy'n dŷ tafarn a bwyty gydag ardal allanol i'r cefn o'r eiddo. Gwnaed y cais mewn perthynas â chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio ar yr eiddo, chwarae cerddoriaeth byw, lluniaeth hwyr y nos a gwerthu alcohol ar, ac oddi ar yr eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod gwrthwynebiadau wedi ei derbyn gan breswylwyr cyfagos yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu. Mynegwyd pryderon ar faterion sŵn a chynnydd mewn traffig a materion parcio ac awgrymwyd cwtogi oriau gwerthu alcohol hyd 23:00 yn ystod yr wythnos a Dydd Sul, a hyd 00:00 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn. Derbyniwyd sylwadau gan yr Adran Gwarchod y Cyhoedd yn amlygu pryder ynglŷn ag oriau chwarae cerddoriaeth byw y tu allan. Amlygwyd bod yr ymgeisydd wedi cytuno i dynnu'r cais yma yn ôl a gofyn am gerddoriaeth byw/recordio ar gyfer tu mewn yr eiddo yn unig.

Argymhellwyd fod y Pwyllgor yn caniatau'r cais yn unol â sylwadau Gwarchod y Cyhoedd a gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Bod y busnes wedi bod yn defnyddio rhybuddion digwyddiadau dros dro, ond erbyn hyn eisiau osgoi eu defnyddio
- Eu bod yn canolbwyntio ar redeg busnes o fwyty yn hytrach na thafarn
- Bod trwydded flaenorol y dafarn yn caniatau agor hyd at 01:00 – dim bwriad agor hyd 01:00 – staff eisiau mynd adre
- Gweini bwyd yn gorffen am 20:30
- Bod yr oriau ar gyfer defnydd achlysurol megis cynnal priodasau a/ neu hybu a chefnogi digwyddiadau cymunedol
- Wedi cytuno tynnu chwarae cerddoriaeth tu allan o'r cais
- Ei fod eisiau cydweithio gyda'r gymuned

Mewn ymateb i gwestiwn sut y byddai deilydd y drwydded yn tawelu pryderon y gymuned, nododd bod tafarn wedi bod ar y safle ers blynyddoedd. Ategodd bod ffenestri newydd wedi eu gosod ynghyd ag arwyddion yn gofyn i ymwelwyr barchu cymdogion a thawelu wrth ymadael a'r dafarn. Nododd hefyd ei fod wedi bod yn defnyddio rhybuddion dros dro am dair wythnos heb achos o godi twrw.

Cadarnhaodd y Rheolwr Trwyddedu bod yr ymgeisydd wedi diddymu chwarae cerddoriaeth tu allan oddi ar y cais ac wedi cytuno i amodau Gwarchod y Cyhoedd i reoli sŵn. Ategodd bod gofynion y drwydded yn is na'r drwydded flaenorol.

Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

Ffion Muscroft (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd)

- Pryderon cychwynnol ynglŷn â sŵn tu allan bellach wedi eu diwallu yn dilyn cynnal trafodaethau gyda'r ymgeisydd i addasu'r cais
- Derbyn bod yr ymgeisydd eisiau canolbwyntio ar redeg bwyty
- Cais i'r ymgeisydd ystyried yr amodau sŵn

Aelod Lleol Cynghorydd Menna Baines

- Croesawu gweld y dafarn yn ail agor, ond bod pryderon ymysg y gymuned ynghylch a'r oriau agor, niwsans sŵn a chynnydd mewn traffig. Pwysleisio nad oedd dymuniad gweld y lle yn cau ar ôl ail agor, ond bod angen trafod y pryderon
- Pryder bod agor yn hwyr yn mynd i fod yn rhywbeth rheolaidd – derbyn digwyddiadau achlysurol ond a fyddai modd ystyried lleihau'r oriau?

Mewn ymateb i'r sylw ynglyn a'r oriau, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod oriau'r cais yn dderbyniol o fewn ardal gymunedol a bod yr ymgeisydd yn ceisio am oriau yn fwy na'r bwriad oherwydd hyblygrwydd i wneud defnydd o'r 'achlysurol'

Yn manteisio ar y cyfle i gloi'r achos, nododd yr ymgeisydd y pwyntiau canlynol:

- Nad yw oriau'r cais dim hwyrach na'r cais blaenorol
- Ei fod yn fodlon cydweithio gyda Adran Gwarchod y Cyhoedd i'r dyfodol
- Cadarnhaodd ei fod yn fodlon derbyn yr amodau sŵn
- Ei fod yn rhedeg cwmni bychan oedd yn ceisio gwneud busnes - bod ganddo ddwy dafarn arall yn yr ardal

Ymneilltuodd yr ymgeisydd, yr ymgynghorwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb ac adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais**

**Rhoddwyd trwydded fel a ganlyn:**

1. **Oriau agor**
   **Suliau: 11:00 - 00:30**
   **Gwener-Sadwrn: 11:00 – 01:30**

2. **Cerddoriaeth fyw tu mewn**
   **Suliau: 11:00 - 23:00**
   **Gwener-Sadwrn: 11:00 – 00:00**

3. **Cerddoriaeth wedi recordio tu mewn**

**Suliau: 11:00 - 23:00**
**Gwener-Sadwrn: 11:00 – 00:00**

4. **Lluniaeth hwyr yn nos**
   **Sul-Sadwrn: 23:00 – 00:00**

5. **Cyflenwi alcohol i yfed ar ac oddi ar yr eiddo**
   **Suliau: 11:00 - 00:00**
   **Gwener-Sadwrn: 11:00 – 01:00**

6. **Ymgorfforir y materion sydd wedi eu rhagnodi yn Atodlen Weithredol (Rhan M) y cais fel amodau ar y drwydded.**

7. **Ymgorfforir fel amodau'r drwydded yr amodau rheoli sŵn a argymhellwyd gan Warchod y Cyhoedd.**

Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau. Diystyrwyd sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion trwyddedu

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Derbyniwyd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd (preswylwyr cyfagos) yn gwrthwynebu'r cais gan gyfeirio at yr amcanion trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus a sicrhau diogelwch cyhoeddus. Yn gryno, mynegwyd pryderon y byddai rhoi'r drwydded yn debygol o arwain at gynnydd mewn sŵn a thraffig yn yr ardal. Cyflwynwyd hefyd sylwadau oddi wrth Adran Gwarchod y Cyhoedd yn argymell amodau rheoli sŵn a chadarnhau bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ddiddymu cais i chwarae cerddoriaeth fyw tu allan.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau. Diystyrwyd sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion trwyddedu.

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Amlygodd yr Is-bwyllgor eu bod yn derbyn bod rhai o'r pryderon a fynegwyd ynglŷn â'r cais yn rhai diffuant. Fodd bynnag, nid oedd yr Is bwyllgor o'r farn bod tystiolaeth ddigonol wedi dod i law i brofi bod y problemau hyn yn debygol pe byddai'r drwydded yn cael ei chaniatáu, ac y byddai'n groes i'r amcanion trwyddedu.

Amlygwyd pryder y byddai caniatáu'r drwydded yn arwain at gynnydd mewn problemau sŵn ac o ganlyniad yn tanseilio'r amcan drwyddedu o atal niwsans cyhoeddus. Er hynny, ni chyflwynwyd tystiolaeth i gefnogi'r honiad tu hwnt i honiadau cyffredinol y gellid eu priodoli i unrhyw eiddo trwyddedig cyfagos, ac ni eglurwyd pam y byddai'r eiddo hwn yn benodol yn debygol o achosi problem sŵn yn fyw nag eraill. Ni chyflwynwyd tystiolaeth o'r nifer, dwysedd, amledd o'r digwyddiadau tebygol o sŵn pe rhoddwyd y drwydded a heb y data hwnnw mae'n amhosib i'r Is-bwyllgor ddod i benderfyniad bod y problemau a ragwelir yn debygol o gyrraedd rhiniog ystyriaethau niwsans cyhoeddus o dan gyfraith gwlad. Ymddengys bod y sylwadau wedi cael eu cyflwyno ar sail dyfalu ac nid tystiolaeth - nid yw hyn yn sail gyfreithiol i wneud penderfyniad - yn ôl yr Uchel Lys yn R (on the application of Daniel Thwaites Plc) v Wirral Corough Magistrates Court [2008] EWHC 838 (Admin). O ganlyniad, nid oedd yr Is-bwyllgor yn gweld sail caniatáu trwydded, yn unol â sylwadau'r preswylwyr, am oriau byrrach na'r hyn y gofynnwyd amdanynt gan yr ymgeisydd.

Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod wedi tynnu ei gais gwreiddiol am drwydded i chwarae

cerddoriaeth fyw tu allan yn ôl a'i fod yn fodlon gyda'r amodau rheoli sŵn a argymhellwyd gan Adran Gwarchod y Cyhoedd. O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn trin y materion hyn fel diwygiadau i'r cais.

Wrth ystyried pryderon diogelwch ffordd, diffyg llefydd parcio a chynnydd mewn traffig, derbyniwyd y gallai'r pryderon hyn mewn egwyddor fod yn berthnasol i'r amcan o sicrhau diogelwch cyhoeddus. Fodd bynnag, roedd y pryderon hyn yn seiliedig ar ddyfalu yn hytrach na thystiolaeth a heb eu cefnogi gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Gwasanaeth Ambiwlans a Gwasanaeth Priffyrdd y Cyngor. Petai caniatáu y cais yn debygol o greu cynnydd traffig fyddai'n peri risg i ddiogelwch y ffordd, byddai'r Is-bwyllgor wedi disgwyl y byddai sylwadau gan yr asiantaethau swyddogol yn amlygu hynny. Yn wyneb diffyg tystiolaeth a diffyg sylwadau oddi wrth arbenigwyr yn y maes, nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei berswadio y byddai caniatáu'r cais yn debygol o danseilio'r amcan o sicrhau diogelwch cyhoeddus.

Tra bo'r Is-bwyllgor yn deall a derbyn pryderon trigolion ar y cais, rhaid gwneud penderfyniad ar sail gyfreithlon ac ar dystiolaeth gadarn sydd yn berthnasol i un neu fwy o'r amcanion trwyddedu. O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais diwygiedig yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu. Caniatawyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 18:00